



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Cyngor y Brifysgol

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y rhith-gyfarfod a gynhaliwyd am 11.30a.m. ddydd Iau 9 Gorffennaf 2020

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Tony Ball
Pam Berry
Andrew Curl
Tania Davies
Sian Eirian
Margaret Evans
Andrew Gibson
Eifion Griffiths
Emma Hughes
Dr Gareth Hughes

Yr Athro Medwin Hughes
Rowland Jones
James Mills
Arwel Ellis Owen
Eirlys Pritchard-Jones
Victoria Provis
Geraint Roberts
Dr Liz Siberry
Maria Stedman
Georgia Thomas

Hefyd yn bresennol:

Aelodau Cyngor Prifysgol Cymru: Nigel Roberts, Stuart Robb a Deris Williams

Yr Athro Robert Brown, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil ac Arloesi)
Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Dr Andrew Cornish, Pennaeth, Coleg Sir Gâr
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiadau Myfyrwyr ac Ymgysylltu Dinesig)
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Stephen Baldwin
Gavin Bessant
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
Margaret Williams, Ysgrifennydd

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|--|---|-------------------------------|
| 20.11 Ymddiheuriadau am absenoldeb a datganiadau o fuddiannau | Hysbysodd y Clerc yr aelodau fod aelodau'r ddau Gyngor wedi'u gwahodd i fynychu'r cyfarfod. DERBYNIODD y Cyngor y Datganiadau o fuddiannau fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc. | |
| 20.12 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2019 | CADARNHAODD y Cyngor Gofnodion anghyfngedig y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2019 (CO262a) a CHYMERADWYO eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol. | |
| 20.13 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2020 | CADARNHAODD y Cyngor Gofnodion CYFYNGEDIG y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2020 (CO262b). | |
| 20.14 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2020 | CADARNHAODD y Cyngor Gofnodion CYFYNGEDIG y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mai 2020 (CO262c). | |
| 20.15 Materion sy'n codi a phwyntiau gweithredu | DERBYNIODD y Cyngor y tabl pwyntiau gweithredu a ddiweddarwyd (CO263). | |
| 20.16 Adroddiadau ar Ymweliadau Sefydliadol CCAUC | YSTYRIODD y Cyngor yr adroddiadau canlynol yn ymwneud ag ymweliad Sefydliadol CCAUC ym mis Ionawr 2020 a chynlluniau gweithredu cysylltiedig (CO264). (a) Adolygiad Sicrwydd Sefydliadol 2019 – adroddiad gydag argymhellion (b) Ymweliad Prevent Tachwedd 2019 – dim adroddiad ffurfiol; gwaith dilynol trwy ohebiaeth gan y swyddog ac adroddiad blynyddol Prevent (c) Ymweliad sicrhau ansawdd Rhagfyr 2019 – adroddiad gyda meysydd i'w datblygu (d) Ymweliad sefydliadol Ionawr 2020 – adroddiad heb argymhellion Dywedodd y Clerc fod cynlluniau gweithredu wedi'u datblygu o ran (a) a (c), a'u bod wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a'r Pwyllgor Academaidd yn y drefn honno yn eu cyfarfodydd ym mis Mai 2020. Cynigiwyd y byddai'r cynlluniau gweithredu'n cael eu monitro gan y pwyllgorau hynny. | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|--|-------------------------------|
| | <p>Cyfeiriodd y Clerc at argymhelliad 11 yn adroddiad (a) y dylid enwi dau lywodraethwr cyswllt ar gyfer datblygiadau ar yr is-gampysau o safbwynt strategol ac academaidd. Roedd y Cadeirydd wedi argymhell y dylid enwi Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a Chadeirydd y Pwyllgor Academaidd yn llywodraethwyr cyswllt.</p> <p>CYMERADWYODD y Cyngor</p> <ul style="list-style-type: none"> • y cynlluniau gweithredu o ran adroddiadau (a) ac (c); • y cynnig y dylai'r cynlluniau gweithredu priodol gael eu monitro gan y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a'r Pwyllgor Academaidd; • y cynnig y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a Chadeirydd y Pwyllgor Academaidd gael eu henwi'n llywodraethwyr cyswllt ar gyfer datblygiadau ar yr is-gampysau. | |
| <p>20.17 Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol</p> | <p>YSTYRIODD y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Strategol arfaethedig 2020-24 ac Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2018/19 (CO265).</p> <p>Nododd y Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd) fod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i baratoi yn dilyn ymgynghori cynhwysfawr gyda rhanddeiliaid perthnasol, staff ac Undeb y Myfyrwyr. Roedd yn fframwaith cadarn ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Sefydlwyd grŵp llywio i weithredu, ymgorffori a monitro'r cynllun yn unol â'r fframwaith gwerthuso a byddai strategaeth gyfathrebu'n ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu. Trafodwyd a chymeradwywyd y Cynllun yn y Senedd ym mis Mehefin 2020. Canolbwyntiai ar amcanion a nodau lefel uchel. Byddai targedau CAMPUS yn cael eu gosod a'u monitro yn rhan o'r cynllun cyflawni gweithredol canolog mewnol a'u cysylltu â'r uned broffesiynol berthnasol a chynlluniau strategol Athrofeydd i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu hymgorffori a'u perchnogi ar draws y sefydliad. Byddai cynllun cyflawni gweithredol ar wahân yn cael ei baratoi ar gyfer CSG / CC.</p> <p>Nododd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol fod Adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Blynyddol y Brifysgol yn cael ei gyhoeddi fel arfer ddiwedd mis Mawrth, ond oherwydd Covid-19 gohiriwyd cyhoeddi'r adroddiad. Roedd y data o fewn yr adroddiad yn seiliedig ar y data HESA diweddaraf a oedd ar gael (2018/19). Roedd yr adroddiad ar gyfer elfen AU Grŵp PCYDDS ac felly'n cynnwys data ar gyfer staff a myfyrwyr AU CSG / CC. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol nad oedd yr iaith Gymraeg yn rhan o gylch gwaith yr adroddiad gan nad oedd yn nodwedd warchoddedig dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Roedd yn cael sylw, fodd bynnag, fel</p> | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|--|---|-----------------------------------|
| | <p>rhan o gydymffurfedd y Brifysgol â Safonau'r Gymraeg. Cadarnhaodd y Dirprwy Is-Ganghellor (Profiadau Myfyrwyr ac Ymgysylltu Dinesig) fod uned iaith Gymraeg y Brifysgol, Rhagoriaith, wedi datblygu matrices i roi sylw i allu iaith y staff a gwella cipio data o ran y Gymraeg.</p> <p>CYMERADWYODD y Cyngor Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24.</p> | |
| <p>20.18 Adroddiad yr Archwiliad Cyflog Cyfartal</p> | <p>DERBYNIODD y Cyngor adroddiad Archwiliad Cyflog Cyfartal 2018 a'r camau gweithredu arfaethedig (CO265a).</p> <p>Nododd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y cynhaliwyd archwiliad cyflog cyfartal PCYDDS yn seiliedig ar ddata staff ar ddyddiad penodol sef 31 Mawrth 2018. Trefnwyd y byddai cyhoeddi'r casgliadau'n cyd-daro â chyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2018/19 a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2020-2024. Byddai gwaith pellach yn cael ei wneud i gau'r bwch cyflog dynodedig gan nodi camau gweithredu penodol i leihau'r bwch. Cynhelir yr archwiliad cyflog cyfartal nesaf yn 2021 ar gyloch tair blynedd fel yr argymhellir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC).</p> | |
| <p>20.19 Datblygiadau Strategol</p> | <p>Mae'r eitem hon dan gyfyngiadau ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod.</p> | |
| <p>20.20 Materion Pwyllgor Craffu'r Grŵp</p> | <p>YSTYRIODD y Cyngor adroddiad Pwyllgor Craffu'r Grŵp a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2020 (CO267).</p> <p>CYMERADWYODD y Cyngor yr argymhelliad y dylid diddymu'r cwmnïau canlynol sydd wedi bod yn segur am nifer o flynyddoedd a/neu nad oes eu hangen mwyach. Byddai'r broses ffurfiol o ddiddymu yn fater i Gyfarwyddwyr y cwmnïau dan sylw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • INSPIRE (UWTSD) Ltd • ISUSTAIN (UWTSD) Ltd • UWTSD Learning Centres Ltd | <p>Clerc i symud ymlaen â hyn</p> |
| <p>20.21 Llythyr cylch gwaith blynyddol y Grŵp</p> | <p>CYMERADWYODD y Cyngor lythyr Cylch Gwaith blynyddol drafft y Grŵp (CO268).</p> | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|-----------------------------------|
| | <p>Nododd yr Is-Ganghellor a'r Pennaeth y paratowyd y ddogfen gan uwch staff y Coleg a'r Brifysgol a'i bod yn amlinellu trywydd realistig ar gyfer cyflawni'r fframwaith sector deuol.</p> | |
| <p>20.22 Datganiad ar hanes Cydweithio</p> | <p>DERBYNIODD y Cyngor ddatganiad ar yr hanes o gydweithio rhwng y Colegau a'r Brifysgol (CO269).</p> | |
| <p>20.23 Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu</p> | <p>DERBYNIODD y Cyngor y trosolwg o gyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 13 Mai 2020 (CO270).</p> <p>CYMERADWYODD y Cyngor yr argymhelliad y dylai etholiad aelodau staff gael ei ohirio tan hydref 2020 ac y dylid penodi'r tri llywodraethwr staff, y daeth eu cyfnodau i ben ar 31 Gorffennaf 2020, am gyfnod byr, pellach yn y cyfamser.</p> | <p>Clerc i symud ymlaen â hyn</p> |
| <p>20.24 Cynllunio olyniaeth</p> | <p>YSTYRIODD y Cyngor egwyddorion arfaethedig ar gyfer llywio cynllunio olyniaeth i lywodraethwyr annibynnol a strategaeth recriwtio (CO271).</p> <p>Nododd y Clerc fod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu wedi cytuno, yn sgil yr ansicrwydd yn gysylltiedig ag argyfwng Covid-19, y dylid gohirio'r cynllun i recriwtio aelodau annibynnol newydd ac y dylid ystyried y strategaeth recriwtio yn y cyfarfod nesaf ym mis Hydref gyda'r bwriad o gynnal ymarfer recriwtio yn gynnar yn 2021. Roedd aelodau wedi gofyn iddi baratoi cynigion yn ymwneud â chynllunio olyniaeth, gan ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Is-Ganghellor, i'w hystyried gan y Cyngor.</p> <p>Cytunodd y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu hefyd y gellid mynd i'r afael yn y cyfamser â'r bylchau sgiliau a ddynodwyd ac ystyriaethau o ran amrywiaeth trwy benodi aelodau cyfetholedig ychwanegol i'r pwyllgorau sefydlog.</p> <p>YSTYRIODD y Cyngor y cynnig a chytunwyd, yn sgil yr angen am sefydlogrwydd oherwydd yr ansicrwydd parhaus ynghylch Covid-19 a'r cynigion strategol sylweddol a gytnwyd yn y cyfarfod, i GYMERADWYO'R egwyddorion canlynol:</p> <p>(a) y dylai'r 'cloc' yn ymwneud â chyfnodau mewn swydd aelodau annibynnol cyfredol y Cyngor gael ei stopio i bob pwrpas, o leiaf am 2020/21. Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu bod yr ail gyfnodau mewn swydd a oedd i orffen ym mis Gorffennaf 2020/21 (y</p> | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|-------------------------------|
| | <p>mae pedwar ohonynt) yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2022, gyda'r holl gyfnodau eraill mewn swydd yn cael eu hymestyn yn yr un modd am flwyddyn;</p> <p>(b) y dylai'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu baratoi strategaeth recriwtio a hysbysebu cyfleoedd ar gyfer llywodraethwyr annibynnol newydd yn 2020/21, gyda phenodiadau newydd i ddod i rym fel y bo'n briodol neu wrth i swyddi gwag godi;</p> <p>(c) y dylai'r egwyddorion hyn gael eu gwneud yn weithredol trwy'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2020 gyda sylw'n cael ei roi i gynllunio ar gyfer y ddau Gyngor.</p> <p>Nododd aelodau fod egwyddor (a) yn parhau'n gyson ag ymrwymadau siarter Camm, sy'n nodi bod cyfnod mewn swydd 'fel arfer yn uchafswm o 9 mlynedd, y gellid mewn amgylchiadau eithriadol ei ymestyn i 10 mlynedd'.</p> | |
| 20.25 Adroddiad y Pwyllgor Taliadau | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad trosolwg cyfarfod y Pwyllgor Taliadau a gynhaliwyd ar 17 Mehefin 2020 (CO272). | |
| 20.26 Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad 7 Mai 2020 | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad trosolwg cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 7 Mai 2020 (CO274). | |
| 20.27 Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad 29 Mehefin 2020 | <p>DERBYNIODD y Cyngor adroddiad trosolwg cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2020 (C0274).</p> <p>O ran y gyllideb flynyddol (gweler cofnod 20.28 isod) nododd Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ei fod wedi cael nifer o drafodaethau gyda'r Is-Ganghellor a swyddogion cyllid tra'r oedd yn paratoi'r gyllideb a chadarnhaodd y bu craffu trwyadl a theg ar y rhagdybiaethau.</p> <p>CYMERADWYODD y Cyngor argymhelliad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad i gymeradwyo'r newidiadau i'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi ar gyfer Cynllun Pensiwn Prifysgol Cymru Llambod (UWLPS) a'r argymhellion yn codi o'r Adolygiad o Strategaeth Fuddsoddi UWLPS, ill dau wedi'u cymeradwyo gan ymddiriedolwyr yr UWSS.</p> | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|--|-------------------------------|
| 20.28 Adroddiad ariannol a llif arian a'r gyllideb flynyddol | Mae'r eitem hon dan gyfyngiadau ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. | |
| 20.29 Adroddiad ar ddyledion drwg | YSTYRIODD y Cyngor yr adroddiad ar Ddyledion Drwg (CO277). CYMERADWYODD y Cyngor argymhelliad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad i ddileu'r dyledion drwg yn unol â gofynion y Rheoliadau Ariannol. Nododd y Cyngor y darparwyd ar gyfer y dyledion yn y cyfrifon. | |
| 20.30 Adroddiad y Senedd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Senedd a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2020 (CO278). | |
| 20.31 Strategaeth Iechyd a Lles Myfyrwyr | YSTYRIODD y Cyngor y Strategaeth Iechyd a Lles Myfyrwyr (CO279) Nododd y Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd) fod y strategaeth yn ganlyniad i ymgynghori cynhwysfawr gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Undeb y Myfyrwyr a'i bod yn ymgorffori nifer o fframweithiau cenedlaethol. Mabwysiadwyd dull Prifysgol gyfan yn unol ag argymhellion CCAUC. Roedd cynlluniau cyflawni gweithredol yn cael eu drafftio, ac roedd grŵp llywio wedi'i sefydlu i weithredu, ymgorffori a monitro'r Strategaeth yn unol â'r fframwaith gwerthuso. Byddai strategaeth gyfathrebu yn rhan o'r cyfnod gweithredu. CYMERADWYODD y Cyngor y Strategaeth Iechyd a Lles Myfyrwyr. | |
| 20.32 Datganiad arfaethedig ar yr argyfwng hinsawdd | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad yn amlinellu datganiad arfaethedig ar yr argyfwng hinsawdd (CO280). CYMERADWYODD y Cyngor yr argymhellion canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Y dylai Grŵp PCYDDS wneud datganiad cyhoeddus i gryfhau a chadarnhau ei bwriadau o ran cynaliadwyedd i gefnogi Argyfwng yr Hinsawdd cyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf; ac | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|-------------------------------|
| | <ul style="list-style-type: none"> Y dylid paratoi cynllun gweithredu gyda dyddiadau terfyn a chyfrifoldebau gwaith dirprwyedig tuag at gyflawni'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â datgan argyfwng yr hinsawdd | |
| 20.33 Achos busnes y Fargen Ddinesig | <p>CYMERADWYODD y Cyngor fersiwn derfynol Achos Busnes Llawn Bargaen Ddinesig Yr Egin ar gyfer Rhan 2 (CO281).</p> <p>NODAI y byddai diweddariadau pellach yn cael eu rhoi, i ddechrau trwy'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, ynglŷn ag Ardal Ddigidol Abertawe (a'r Pentref Bocsys), Rhan 2 Yr Egin, Llynnoedd Delta a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth arfaethedig ar gyfer PCYDDS i arwain y gwaith o ddatblygu sgiliau, a chyfleoedd eraill yn gysylltiedig â'r Fargen Ddinesig wrth i'r rhain ddod i'r amlwg.</p> | |
| 20.34 Adroddiadau Bwrdd Coleg Sir Gâr | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad ar gyfarfodydd Bwrdd Coleg Sir Gâr a gynhaliwyd ar 21 Mai 2020 a 4 Mehefin 2020 (CO282 a CO283). | |
| 20.35 Cylch Gorchwyl Pwyllgorau Coleg Sir Gâr | CYMERADWYODD y Cyngor y cylch gorchwyl arfaethedig newydd ar gyfer Pwyllgorau sefydlog Coleg Sir Gar (CO284). | |
| 20.36 Pwyllgor Academaidd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Academaidd a gynhaliwyd ar 21 Mai 2020 (CO285). | |
| 20.37 Pwyllgor Archwilio a Risg | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 18 Mai 2020 (CO286). | |
| 20.38 Adroddiad y Senedd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Senedd a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2020 (CO287). | |
| 20.39 Defnydd o Sêl y Brifysgol | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar y defnydd o Sêl y Brifysgol (CO288). | |
| 20.40 Adroddiad ar Gamau Gweithredu'r Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar gamau gweithredu'r Cadeirydd ers y cyfarfod diwethaf (CO289). | |
| 20.41 Eitemau a ddosbarthwyd yn dilyn canslo cyfarfod mis Mawrth | DERBYNIODD y Cyngor y rhestr o eitemau a ddosbarthwyd er gwybodaeth yn dilyn canslo cyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth 2020 (CO290). | |

| Eitem Agenda | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|--|--|-------------------------------|
| 20.42 Benthyciad y Fargen Ddinesig | DERBYNIODD y Cyngor y papurau a ddisbarthwyd i'w cymeradwyo drwy ohebiaeth ynglŷn â benthyciad y Fargen Ddinesig (CO291). | |
| 20.41 Datganiadau o fuddiannau | Nododd Mr Eifion Griffiths ei fod yn Ymddiriedolwr cronfa Bensiwn Prifysgol Cymru Llambod (cofnod 20.27). Ni wnaed unrhyw ddatganiadau eraill o fuddiannau yn ystod y cyfarfod. | |
| 20.42 Dyddiad y cyfarfod nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 30 Medi neu 1 Hydref 2020. | |

Terfynwyd y cyfarfod am 13.30